Ysgol Gynradd Gymunedol Gymraeg Llantrisant
Ffordd Cefn yr Hendy, Meisgyn, Pontyclun, Rhondda Cynon Taf. CF72 8TL
01443 237837 admin@ygggllantrisant.rctcbc.cymru
www.ygggllantrisant.com

Pennaeth *Head Teacher* **Mr R O'Neil**

17.07.26

Annwyl Rieni / Gofalwyr,

Ar ddiwedd blwyddyn brysur, lwyddiannus arall, ar ran holl staff yr ysgol, hoffwn ddiolch i chi am eich cydweithrediad a'ch cefnogaeth unwaith eto eleni. Hefyd, diolch am yr holl roddion hael yr ydym wedi'u derbyn wrth i'r plant ffarwelio â'u dosbarthiadau a'u hathrawon presennol. Mae'r plant wedi bod wrth eu boddau yn cyflwyno'r cardiau o ddiolch a'r anrhegion i'r staff - ar ran pawb, diolch yn fawr iawn i chi.

Pob lwc a diolch i ddisgyblion Blwyddyn 6 wrth iddynt adael ein hysgol ni a symud ymlaen i'r ysgol uwchradd. Braf iawn oedd gweld pob un ohonynt yn tyfu ac yn datblygu yn ystod eu hamser yn yr ysgol hon i fod yn unigolion cyfrifol yn barod am yr heriau newydd sydd o'u blaenau. Edrychwn ymlaen at glywed am eu datblygiad a chynnydd yn yr ysgol uwchradd yn ystod y blynyddoedd sydd i ddod.



Pob lwc hefyd i bedwar disgybl arall (HC, LL, TH a CJ) a fydd yn symud ysgol ym mis Medi. Pob lwc i chi ar gyfer y cam nesaf yn eich taith ddysgu.





Hefyd, diolch yn fawr iawn a phob lwc ar gyfer y dyfodol i Mr. Robson, athro Dosbarth 3, a fydd yn ein gadael ar ddiwedd Tymor yr Haf. Mawr iawn yw ein diolch iddo am ei holl waith caled, ymroddiad a brwdfrydedd tra'n addysgu disgyblion Blwyddyn 1 ac am gynnal Clwb Chwaraeon Blwyddyn 5 a 6 ar ôl ysgol gyda Mr. Richards. Diolch a phob hwyl i ti, Mr. Robson!

Felly, mwynhewch wyliau'r Haf a gwelwn ni chi ar ddydd Iau, Medi'r 3ydd. Edrychwn ymlaen at glywed newyddion y plant sydd yn dychwelyd atom yn y tymor newydd!

Yn gywir,

(o.n. Cadwch lygad mas am ein hadroddiad Estyn a gyhoeddir ar Awst 3ydd - Y.G.G.G. Llantrisant - Estyn - gwerth ei ddarllen!)

Ysgol Gynradd Gymunedol Gymraeg Llantrisant
Ffordd Cefn yr Hendy, Meisgyn, Pontyclun, Rhondda Cynon Taf. CF72 8TL
01443 237837 admin@ygggllantrisant.rctcbc.cymru
www.ygggllantrisant.com

Pennaeth *Head Teacher* **Mr R O'Neil**

17.07.26

Dear Parents / Carers,

At the end of another busy and successful year, on behalf of all the school staff, I would like to thank you for your cooperation and support once again this year. Also, thank you for the generous gifts we have received as the children say goodbye to their current classes and teachers. The children have been delighted to present the thank you cards and gifts to the staff - on behalf of everyone, thank you very much.

Good luck and thank you to our Year 6 pupils as they leave us and move on to secondary school. It is most rewarding to have seen each of them grow and develop during their time at this school to be responsible individuals ready for the new challenges ahead. We look forward to hearing of their continued progress and development at secondary school during the years to come.



Also, the very best of luck to four other pupils who are moving school in Autumn Term (HC, LL, TH a CJ). All the best to you for the next step in your learning journey.





Also, many thanks and good luck to Mr. Robson, our Class 3 teacher, who will leave us at the end of the Summer term. We are very grateful to him for all of his hard work, dedication and enthusiasm whilst teaching Year 1 pupils and for holding the Year 5 and 6 Sports Club after school with Mr. Richards. Thank you and all the best, Mr. Robson!

So, enjoy the Summer holidays and we'll see you on Thursday, September 3rd. We look forward to hearing the returning children's news in the Autumn term!

Regards,

(p.s. - Keep an eye open for our Estyn report which is published on August 3rd - Y.G.G.G. Llantrisant - Estyn a good read!)